



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Penodi Comisiynydd

Dyddiad cau: 13 Hydref 2017

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus



**The Commissioner for
Public Appointments**

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cynnwys	Tud
<u>Gwneud cais</u>	3
<u>Atodiad A: Cyfrifoldebau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru</u>	5
<u>Atodiad B: Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru</u>	9
<u>Atodiad C: Y broses ddethol</u>	10

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb yn swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Bydd y Comisiynydd newydd yn etifeddu swydd unigryw a grëwyd i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau pobl sy'n 60 oed neu'n hŷn yng Nghymru. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion swydd y Comisiynydd a manyleb y person, ei rôl a'i gyfrifoldebau a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru: <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-8e7c9f0d582e/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru ac yna clicio ar 'Gwneud Cais' yn y gornel chwith ar y gwaelod. Y tro cyntaf y byddwch yn gwneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, a gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eich cais, ac unrhyw gais arall y byddwch yn ei wneud, trwy eich cyfrif cofrestredig.

Ar ôl ichi gofrestru, gallwch gael gafael ar y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV yn yr adran 'Rhesymau dros wneud cais' ar y ffurflen gais ar-lein. Dylech nodi y byddwch trwy wneud cais yn caniatáu i'ch CV a'ch datganiad personol gael eu trosglwyddo i'r Panel Pobl Hŷn a'r trydydd parti sydd dan gcontract i hwyluso'r Panel. Y Panel Pobl Hŷn yw'r cyfrwng y bydd y Prif Weinidog yn ei ddefnyddio'i gael barn pobl hŷn ar yr ymgeiswyr sy'n cael eu cyfweld ar gyfer y swydd. Mae rhagor o wybodaeth am y broses ddethol ar gael yn Atodiad C.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw'r cyfle ichi ddangos sut rydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut byddwch chi am gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth wnaethoch chi i gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd yn fuddiol i'r panel dethol pe gallech egluro pa dystiolaeth benodol rydych chi'n ei rhoi sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arferol rhoi paragraff ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Dylech gyfyngu eich datganiad personol i ddwy dudalen. Gellir gwrthod eich cais os bydd eich datganiad personol yn fwy na hyn.

CV

Dylech sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion cryno am eich swydd gyfredol neu fwyaf diweddar a'r dyddiadau y buoch yn cyflawni pob rôl. Nodwch unrhyw benodiadau presennol neu flaenorol.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Amserlen ddangosol

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:	13 Hydref
Y rhestr fer:	dechrau Tachwedd
Cyfweliad gan y Panel Asesu Cynghorol:	dechrau – canol Ionawr
Asesiad y Panel Pobl Hŷn:	canol – diwedd Ionawr
Dyddiad cychwyn disgwylidig:	4 Mehefin 2018* <i>*yn amodol ar gwblhau gwiriadau'n llwyddiannus</i>

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i swyddi cyhoeddus. Rydym yn croesawu ceisiadau'n arbennig gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais yn eich galluogi hefyd i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Cysylltiadau

I gael rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, cysylltwch â Neil Jones, Llywodraeth Cymru:
Ffôn: 03000 61 5860
E-bost: jones.neil@gov.wales.

Os oes angen cymorth pellach arnoch i ymgeisio am y swydd hon, dylech ffonio Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru - 029 2082 5454 neu e-bostio SharedServiceHelpdesk@gov.wales.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i <http://gov.wales/about/recruitment/public-appointments/?skip=1&lang=cy>.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Atodiad A

Cyfrifoldebau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyfrifoldebau

Bydd y Comisiynydd Pobl Hŷn:

- yn ffynhonnell o wybodaeth, eiriolaeth a chefnogaeth i bobl yng Nghymru sy'n 60 oed neu'n hŷn;
- yn hyrwyddo'r gwaith o ddarparu cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru a chael gwared ag arferion sy'n gwahaniaethu yn eu herbyn;
- yn annog yr arferion gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru;
- yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Rôl Benodol y Comisiynydd fydd:

- Darparu arweinyddiaeth genedlaethol a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn drwy sefydlu partneriaethau cryf a chysylltiadau pwerus gyda phobl a sefydliadau i hyrwyddo canlyniadau gwell a dylanwadu ar bolisi, deddfwriaeth, penderfyniadau ac arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn
- Craffu ar Lywodraeth Cymru, sefydliadau cyhoeddus eraill neu ar bobl a restrir yn Atodlen 2 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau ymatebol i bobl hŷn.
- Hyrwyddo llais pobl hŷn ledled Cymru a sicrhau bod eu safbwyntiau a'u pryderon yn cael eu hystyried trwy gydweithio â grwpiau a rhwydweithiau pobl hŷn ledled Cymru
- Sicrhau bod Swyddfa'r Comisiynydd yn cael ei rheoli'n effeithlon yn ariannol, a chyflawni ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu Corfforaethol gan ddarparu adroddiad ariannol blynyddol i'r Prif Weinidog.
- Cynnal, comisiynu neu helpu rhywun arall i gynnal neu gomisiynu ymchwil neu weithgarwch addysgol mewn cysylltiad ag unrhyw rai o swyddogaethau'r Comisiynydd.
- Adolygu'r trefniadau a wneir gan gyrff penodol ar gyfer ymdrin ag eiriolaeth, chwythu'r chwiban a chwynion (fel y'u diffinnir yn y deddfwriaeth) i weld a yw'r trefniadau hyn yn effeithiol, a pha mor effeithiol ydynt, o ran diogelu a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

- Helpu pobl hŷn i wneud cwynion neu sylwadau mewn perthynas â Llywodraeth Cymru a gwasanaethau diffiniedig, ac mewn achosion penodedig.
- Cyhoeddi canllawiau arferion gorau, yn unol â gofynion Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Diwygio) 2008.
- Cydweithio a chydweithredu â'r Comisiynwyr eraill ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y bo'n briodol.
- Rheoli'r tîm o staff yn Swyddfa'r Comisiynydd, gan sicrhau bod gwasanaeth effeithiol yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a bodloni'r galw sy'n gysylltiedig â llwyth gwaith prysur.

Manyleb y Person

I gael eich ystyried am y swydd, bydd rhaid ichi allu dangos bod gennych y priodweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad.

Meini Prawf Hanfodol

Bydd y person rydym yn chwilio amdano yn meddu ar y cymwyseddau allweddol canlynol:

- Ymrwymiad amlwg i hyrwyddo a diogelu buddiannau pobl hŷn.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion a'r problemau sy'n wynebu pobl hŷn yng Nghymru a'r cyd-destun polisi eang y mae'r gwasanaethau perthnasol yn gweithredu oddi mewn iddo.
- Gwybodaeth ardderchog am lywodraethiant, gyda phrofiad ar lefel uwch. Y gallu i arwain sefydliad sy'n ymateb i anghenion pobl hŷn yng Nghymru ynghyd â rheoli llwyth gwaith trwm.
- Sgiliau rhwydweithio rhyngpersonol a chyflwyno datblygedig iawn. Y gallu i ennyn hyder pobl hŷn a'r cyhoedd yn gyffredinol, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ogystal ag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys iechyd, llywodraeth leol, y trydydd sector, y cyhoedd a'r cyfryngau.
- Y gallu i ryngweithio'n effeithiol â'r cyfryngau, ac ymateb i bwysau ganddynt, er mwyn hyrwyddo newid, tynnu sylw at arferion gorau a hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn.
- Gwybodaeth am a dealltwriaeth o Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ac egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a'r gallu i gyflwyno sylwadau gerbron Llywodraeth y DU.

Gofynion Dymunol

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Er nad ydynt yn hanfodol, croesewir yn arbennig ymgeiswyr sy'n gallu dangos y canlynol:

- Gwybodaeth am a dealltwriaeth o sut mae gwasanaethau amrywiol a ddefnyddir gan bobl hŷn yn gweithredu, gan gynnwys trafndiaeth, iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol, cyflogaeth ac addysg i oedolion.
- Gwybodaeth am y trefniadau rheoleiddio ac arolygu a ddefnyddir i archwilio gwasanaethau cyhoeddus amrywiol a ddefnyddir gan bobl hŷn.

Y Gymraeg

Mae swyddfa'r Comisiynydd yn meddu ar y gallu angenrheidiol o ran y Gymraeg i'w galluogi i weithredu'n ddwyieithog a darparu gwasanaethau dwyieithog. O'r herwydd, nid ystyrir bod sgiliau yn y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer y penodiad hwn, ond mae sgiliau ar lefel sylfaenol yn ddymunol.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Bydd yn ofynnol i'r Comisiynydd weithio'n gyson y tu hwnt i oriau swyddfa arferol gyda'r nos ac ar benwythnos, er mwyn mynd i gyfarfodydd a bod ar gael i bobl hŷn. Disgwylir i'r Comisiynydd deithio o gwmpas Cymru yn gyson hefyd, ac o gwmpas y Deyrnas Unedig, Ewrop a thu hwnt o dro i dro.

Lleoliad:	Bae Caerdydd
Ymrwymiad amser:	Amser llawn
Hyd y swydd:	Pedair blynedd i ddechrau, gyda'r posibilrwydd o dymor pellach.
Cyflog:	£90,000 y flwyddyn. Didynnir treth a chyfraniadau yswiriant gwladol o'r cyflog ac mae'n bensiynadwy. Bydd unrhyw godiad cyflog yn cael ei bennu gan Weinidogion Cymru yn unol â chanfyddiadau blynyddol Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cymhwysedd

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn ffordd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd yn unol ag Egwyddorion Nolan

<https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life>.

Mae rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cynnwys cyswllt ag oedolion sy'n agored i niwed. O ganlyniad, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu neu fod yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae rhagor o wybodaeth am [wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#) ar gael yma. Gan fod y rôl yn un Gorfforaethol bydd gwiriad ariannol manylach yn ofynnol hefyd. Ni fyddwn yn cadarnhau'r penodiad hyd nes y bodlonir y gwiriadau/gofynion cofrestru hynny.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn swydd sy'n anghymwyso'r deiliad rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymwyso) 2015.

<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro Buddiannau

Gofynnir ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai, neu y gellid ystyried eu bod yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes a swyddogaethau o awdurdod y tu allan i'r rôl hon.

Archwilir unrhyw wrthdaro buddiannau yn y cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd yn ofynnol hefyd ichi ddatgan y buddiannau hynny ar gofrestr a fydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arddangos safonau uchel o ymddygiad personol a chorfforaethol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Bwrdd Byrddau Cyhoeddus, ac mae'r ddogfen ar gael yn:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Atodiad B

Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

- Yn 2003, lansiodd Llywodraeth Cymru y strategaeth gyntaf ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Roedd hwn yn gyflawniad arloesol a gafodd ei gydnabod yn eang. Yn 2013, cyhoeddwyd Cam 3 y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, yn pontio cyfnod o 10 mlynedd o 2013 i 2023. Mae'n canolbwyntio ar y tair blaenoriaeth a nodwyd gan bobl hŷn, sef cael mynediad at adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol er mwyn heneiddio'n dda yng Nghymru. Yn sgil rhoi deddfwriaeth sy'n effeithio ar bobl hŷn ar waith yn ddiweddar: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru); Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), ein bwriad yw adolygu ac adnewyddu'r Strategaeth bresennol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fynd i'r afael yn effeithiol â'r materion sy'n bwysig i bobl hŷn yng Nghymru.
- Yn 2008, roedd Cymru ar flaen y gad pan benodwyd y Comisiynydd cyntaf ar gyfer Pobl Hŷn. Sefydlodd Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 gomisiynydd cwbl annibynnol gyda chyfres o bwerau cadarn i sicrhau bod buddiannau pobl Cymru, sy'n 60 oed neu'n hŷn, yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo a bod gwasanaethau yn cael eu gwella i ddiwallu eu hanghenion.
- Ar hyn o bryd, mae gan y swyddfa 20 aelod o staff a 2 Gyfarwyddwr, ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllideb o £1.545 miliwn y flwyddyn.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau adolygiad llawn ac annibynnol o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru yn 2015. Er mai'r Comisiynydd Plant oedd prif ffocws yr adolygiad, roedd gan nifer o'r argymhellion oblygiadau i holl Gomisiynwyr Cymru. Mae'n bwysig felly bod ymgeiswyr yn ymwybodol y gallai fod newidiadau yn y dyfodol a fyddai'n effeithio ar y rôl a'r swyddogaethau, a thelerau ac amodau'r swydd.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Atodiad C

Y Broses Ddethol

Mae'r swydd hon yn benodiad cyhoeddus arwyddocaol a gwneir asesiad trylwyr o'r ceisiadau er mwyn sicrhau bod yr ymgeisydd a ddewisir yn bodloni gofynion y rôl.

Trosolwg o'r broses ddethol

1. Cyflwyno Ceisiadau - erbyn 13 Hydref
2. Rhestr fer - dechrau Tachwedd
3. Panel Asesu Cyngorol (cyfweiliad ffurfiol) – dechrau / canol Ionawr
4. Panel Pobl Hŷn (asesiad a chyflwyniad) canol / diwedd Ionawr
5. Penodiad erbyn 4 Mehefin 2018

Ceisiadau

Nodwch eich bod trwy ymgeisio am y swydd hon yn cytuno y bydd eich CV a'ch datganiad personol yn cael eu rhannu â'r Panel Pobl Hŷn ac â'r trydydd parti a benodir i hwyluso'r Panel.

Rhestr Fer yr Ymgeiswyr

Gall eich cais gael ei roi ar "restr hir", yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a dderbynnir, cyn ei drosglwyddo i'r Panel Asesu Cyngorol a fydd yn dethol y rhestr fer. Dylech sylweddoli yn y sefyllfa hon na fydd eich cais, o bosib, yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Byddwch yn derbyn e-bost oddi wrth y system Penodi i roi gwybod ichi a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer. Ein bwriad yw y bydd yr asesiad gyda'r Panel Pobl Hŷn a'r Panel Asesu Cyngorol yn digwydd yng Nghaerdydd.

Cyfweiliad gan y Panel Asesu Cyngorol (PAC)

Bydd y rhai a roddir ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweiliad ffurfiol gyda'r Panel Asesu Cyngorol (PAC) hefyd. Bydd y PAC yn gofyn cwestiynau am eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y swydd. Mae'r PAC yn cynwys grŵp trawsbleidiol o Aelodau'r Cynulliad sydd â phrofiad a gwybodaeth am y materion sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Asesiad gan y Panel Pobl Hŷn

Gwahoddir y rhai fydd ar y rhestr fer i ymddangos gerbron y Panel Pobl Hŷn (PPH). Bydd y PPH yn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth ac empathi'r ymgeiswyr ynghylch materion a phroblemau sy'n wynebu pobl hŷn yng Nghymru. Bydd disgwyl ichi roi cyflwyniad i'r PPH hefyd a gellid gofyn ichi gymryd rhan mewn sefyllfa chwarae rôl a/neu ateb cwestiynau.

Byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl o ddyddiadau'r Paneli i ymgeiswyr ar y rhestr fer. Os na allwch ddod ar y dyddiadau a drefnir, byddwn yn ceisio eu haildrefnu ond efallai na fydd modd gwneud hyn oherwydd cyfyngiadau amser o ran yr adegau y bydd aelodau'r panel ar gael.

Ad-delir costau teithio rhesymol i ymgeiswyr ar y rhestr fer yn unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Bydd rhagor o wybodaeth am hyn ar gael maes o law.

Penodi

Bydd Prif Weinidog Cymru yn derbyn (i) adroddiad gan y Panel Asesu Cyngorol yn rhoi manylion y rhai a ystyrir yn 'addas i'w penodi; (ii) adroddiad gan y Panel Pobl Hŷn yn amlinellu eu barn ar bob ymgeisydd. Bydd y Prif Weinidog yn ystyried y ddau adroddiad cyn dod i benderfyniad terfynol. Gall ddewis cyfarfod ag un neu fwy o'r ymgeiswyr addas i'w penodi cyn gwneud penderfyniad. Os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyfarfod yn digwydd ym mhresenoldeb Cadeirydd y Panel Asesu Cyngorol neu gynrychiolydd a enwebir ganddynt. Bydd bwloch rhwng yr asesiadau a'r penderfyniad ar y penodiad terfynol. Bydd ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael eu hysbysu am y broses fynd yn ei blaen.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr yn eich penodi'n Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y swydd ichi. Ni fydd y penodiad yn cychwyn nes bydd gwiriadau terfynol ariannol manylach a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau.

Os byddwch chi'n aflwyddiannus yn y cyfweliad, cewch eich hysbysu gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod llawer o amser ac ymdrech yn gysylltiedig ag ymgeisio am swyddi a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn rhoi manylion ichi am y sawl y gallwch ofyn iddo am adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os ydych chi'n dymuno gwneud hynny.

Ymholiadau pellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais, ffoniwch Ddesg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i SharedServiceHelpdesk@gov.wales.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Os nad ydych chi'n gwbl fodlon

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu ceisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych chi unrhyw gwynion am y ffordd y cafodd eich cais ei drin, dylech ffonio Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu anfon e-bost i SharedServiceHelpdesk@gov.wales.